# PERTHYN

EBRILL 2026 Rhifyn 346



# Gair y Gweinidog

Un da oedd ‘Seren’! Gadewch i mi egluro. Asyn, mul, oedd ‘Seren’, ac oherwydd bod marc siâp croes ar ei gefn, fe’i galwyd yn ‘Seren’, tipyn mwy naturiol na ‘Croes’! Trigai yn y cae oedd yn gwahanu tŷ taid a nain oddi wrth eu cymdogion a byddai’n ymddangos yn ddyddiol gan aros yn amyneddgar am foronen neu afal. Y teulu Williams oedd y perchnogion, Mrs Williams wedi dychwelyd gyda Robert Williams o Wlad Belg wedi’r rhyfel ac wedi meistroli’r Gymraeg heb unrhyw wers ffurfiol, a byddai ‘Seren’ yn crwydro i mewn i’w tŷ ac yn cadw cwmni i Mrs Williams, mam Robert Williams, trwy eistedd ger y tân yn y parlwr!
Roedd 'Seren' yn rhan o'n plentyndod, ac mae gen i gof clir o geisio rhoi cyfryw am ei ben er mwyn ei farchogaeth. Nid ddaeth dim o’r antur ac oherwydd ei natur annwyl, roedd yn well ganddo gerdded gyda ni.

Yng nghyfnod y Grawys, wrth i ni geisio paratoi ein hunain ar gyfer y Pasg, ‘rwyf bob amser yn meddwl am 'Seren'!
Dyma’r geiriau sy’n ymddangos yn Efengyl Mathew, Pennod 21 –

‘7daethant â'r asen a'r ebol ato, a rhoesant eu mentyll ar eu cefn, ac eisteddodd Iesu arnynt. 8Taenodd tyrfa fawr iawn eu mentyll ar y ffordd, ac yr oedd eraill yn torri canghennau o'r coed ac yn eu taenu ar y ffordd.’

Ar ddechrau ei wythnos olaf ar y ddaear, mae’r Iesu’n teithio i mewn i Jerwsalem, nid ar geffyl, ond ar gefn asyn, ac yr oedd nifer oedd yn tystio i hyn yn gwybod yn iawn bod yna ystyr symbolaidd i’r cyfan. ‘Roedd yna obaith Meseianaidd gyffredinol, y byddai Duw yn adfer ei deyrnas ym mywyd y Genedl, ac y byddai arweinydd milwrol o linach Dafydd, person a gredai yn nerth y cleddyf, yn arwain y Wladwriaeth Iddewig yn llwyddiannus yn erbyn eu gelynion. Milwr yn marchogaeth y fel arweinydd i frwydr. Ond yn lle hynny, marchogodd

Iesu i mewn i Jerwsalem ar gefyn asyn, mewn gostyngeiddrwydd a thosturi, gan danlinellu natur Teyrnas Dduw, a grym heddwch a chariad.
Dilynodd rhai ef, gan gredu bod ei ffordd yn ffordd ‘ragorach’ –

9Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi:
“Hosanna i Fab Dafydd!
Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd.
Hosanna yn y goruchaf!”

Ond trodd eraill eu cefnau arno, gan fawrygu ffyrdd casineb a rhyfel!

Ac dyma ni yn y flwyddyn 2026, yn dyst i realiti y natur ddynol, a’r sefyllfa bresennol yn y Dwyrain Canol yn ffocws i hynny sef cariad dyn tuag at gasineb yn lle heddwch.
Mae pob sefyllfa yn wahanol, ac felly fe fyddai'n wir i ddweud y gall atebion fod yn anodd ac yn gymhleth, ond y gwahoddiad ym mhob cyfnod a phob sefyllfa i ddeall ystyr 'heddwch' ac yn ein perthnasoedd amrywiol â'n gilydd, a bywyd yn gyffredinol, y gwahoddiad i ddilyn llwybrau cymod a chariad.
Fe ddywedodd rhywun unwaith y gallwn dreulio oes yn ceisio profi’r atgyfodiad, y gwahoddiad i chi a fi yw ceisio deall a byw goblygiadau’r atgyfodiad, sef bywyd newydd yng Nghrist

Tasg anodd, ond gwahoddiad sy'n dod yn botensial ac yn realiti trwy atgyfodiad Crist.

Yn ostyngedig, boed i ni ddeall ac ymarfer ei lwybrau!

Pasg bendigedig i chi gyd!

‘Heddiw cododd Crist yn fyw,
Haleliwia!
Llawen ddydd o foliant yw,
Haleliwia!’

Eifion.

# NEWYDDION

## COFION

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at ein aelodau sydd mewn cartrefi gofal a’r rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi.  Dymunwn fendithion y Pasg i bob un ohonoch.

## CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn, yn ddwys â Glenys James yng Nghartref Cwmcynfelyn ar farwolaeth ei brawd- yng - nghyfraith, sef Mr Erddyn James, Llanfihangel Genau’r Glyn.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Mr. Mel Hughes, Penparcau ar farwolaeth ei briod. Mrs. Susan Hughes a oedd yn aelod ffyddlon o Gapel Ebeneser. Rydym yn cydymdeimlo hefyd â’r teulu a’r cysylltiadau.

## PENBLWYDD ARBENNIG

Llongyfarchiadau i Mr. Wyn Thomas, gynt o Loveden Cottage ar ddathlu ei benblwydd yn 90 oed. Ar ar hyn o bryd mae yng Nghartref Hafan y Waun ar ôl symud yno o Gartref Tregerddan

## LLONGYFARCHIADAU

Mae nifer o'r plant a'r ieuenctid wedi bod yn brysur ac wedi cael llwyddiant mewn nifer o feysydd a gweithgareddau yn ddiweddar - Eisteddfod yr Urdd - (yn unigol ac fel rhan o grwp), Cystadlaethau Chwaraeon a Chlocsio fel aelodau o Seithenyn a grwp clocsio Ieuenctid.  Hefyd bu tim o Ysgol Penweddig yn fuddugol yn Nghystadleuaeth Dadlau Cyhoeddus Cymraeg Academi Seren yn Rhydychen yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i bob un ohonoch, rydym yn falch iawn ohonoch!

# SULIAU A BLODAU

## BLAENOR Y MIS – R Arwel Jones

5 Ebrill – Sul y Pasg – Eifion Roberts
12 Ebrill – Ffred Ffransis
19 Ebrill – Eifion Roberts
26 Ebrill – Huw Roderick

# OEDFA GWENER Y GROGLITH (3 Ebrill) SANTES FAIR AM 10 y.b

## BLODAU

5 Ebrill – Nia Mair Gruffydd Jones
12 Ebrill – Lona Jones
19 Ebrill – Hefina a Sian
26 Ebrill – Mari Jones a Carys Davies



# NEWYDDION EBENESER

## COFION

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein aelodau a’n cyfeillion yn Ebeneser gan ddymuno bendithion y Pasg i bob un ohonoch.

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac sydd yn methu ag ymuno yn y gwasanaethau.

## CYDYMDEIMLAD

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs. Susan Hughes. Roedd yn ffyddlon iawn i’r gwasanaethau yn Ebeneser, yn paratoi’r cymun unwaith y mis ac yn agor drws y capel.
Cydymdeimlwn â’i phriod Mel, ei chwiorydd a’r teulu oll.

# GWASANAETHAU MIS EBRILL

5 Ebrill - Dydd Sul y Pasg - Gwasanaeth Cymun

19 Ebrill - Gwasanaeth

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad ein Gweinidog Y Parchedig Eifion Roberts.

# Y GYMDEITHAS

**Hwyl, holi a chaws yng Nghymdeithas y Morfa**

Roedd yna ddigon o hwyl, cwestiynau a chaws yng nghyfarfod Cymdeithas y Morfa ddechrau Mawrth. Sara Jenkins o Laeth Jenkins Tal-y-bont oedd y gwestai. Mae'n enedigol o Langeitho ac wedi swyddi gyda Mudiad y Ffermwyr Ifanc a Mentera mae hi bellach â rhan allweddol yn y fusnes laeth – busnes y dechreuodd hi a'i gŵr Eifion yn 2020. Mae'n siŵr bod rhai ohonoch wedi sylwi ar y peiriant llaeth ar safle yr hen ysgol Gymraeg – wel dyna un o beiriannau y cwmni ac mae un arall ym Machynlleth. Mae'r cwmni hefyd yn cyflenwi sawl siop ac ambell gaffi yn Aberystwyth. Llaeth organig yw llaeth Jenkins o wartheg duon fferm Cerrig Caranau – yno mae Eifion, ei frawd Geraint a rhieni-yng-nghyfraith Sara – Dilwyn ac Eirlys yn ffermio. 10% o laeth y fferm sy'n cael ei werthu'n lleol – mae'r 90% arall yn cael ei gasglu gan lori arbennig ar gyfer llaeth organig ac yna ei gludo i Wlad yr Haf. Mae'r 90% hwnnw yn cael ei brisio ar raddfa A a gan bod y pris ar gyfer y 10% a oedd yn weddill yn sylweddol is dyma benderfynu gwneud defnydd ohono ar gyfer y gymuned leol. Rhaid, wrth gwrs, oedd cael peiriannau arbenigol ar gyfer y pastereuddio a'r oeri heblaw sôn am beiriant gwerthu, a photeli ond

da clywed bod y fusnes yn mynd o nerth i nerth. Dysgon lawer am y dulliau o gael y llaeth i safon, am yr ap sy’n dweud wrth Sara pryd mae angen llenwi’r peiriannau gwerthu ac am rinweddau a ffresni’r llaeth o gymharu â llaeth yr archfarchnad. Braf hefyd oedd clywed bod cwmni o Lanfarian yn gwneud caws ohono – caws yr Abaty – ac roedd pawb i weld wrth eu bodd gyda’r brie a’r caws glas.
Mae Sara, ar hyd y blynyddoedd, wedi ennill sawl gwobr am siarad cyhoeddus a doedd hynny ddim yn synnu y gynulleidfa wrth iddi siarad am bron i awr yn gwbl huawdl mewn arddull gartrefol a chynnes. Braf clywed am lwyddiant menter leol – un sy’n cyflenwi cymuned sydd mor bwysig i’r perchnogion.



## 23 Mawrth 2026

## Stephen Rees, Bangor : ‘Traddodiad! Pa Draddodiad?’

Ar noson 23ain, cafwyd sgwrs ddifyr a diddorol gan y darlithydd, ymchwilydd a cherddor gwerin Stephen Rees. Croesawodd Menai bawb, ac arweiniwyd y defosiwn gan Dilys Hughes.

Brodor o Rydaman ydy Stephen, ond oherwydd ei swydd yn Adran Gerdd Prifysgol Bangor, mae wedi byw yn y Gogledd am gyfnod hir. Mae’n adnabyddus i lawer drwy ei waith cyfeilio i ddawnsio gwerin ac fel aelod o’r grwpiau gwerin Ar Lôg a Crasdant. Roedd yn ganolog i’r gwaith sefydlu’r cyrff datblygu cerddoriaeth werin Gymreig trac a Clera, ac mae galw mawr am ei ddoniau fel cerddor sesiwn ar y sîn werin gyfoes wrth gefnogi nifer o berfformwyr, fel Siân James a Mabsant, ymysg eraill.

Trywydd sgwrs Stephen oedd beth yn union yw hanfod ‘Traddodiad’, unwaith mae dyn yn dechrau dadansoddi ei natur a’i gyfansoddiad. Soniodd, fel enghraifft, am yr hen Merêd annwyl yn dysgu caneuon ar yr aelwyd gan ei fam, ac yna’n dod i ganu caneuon ‘newydd’ gan J. Glyn Davies (Cerddi Huw Puw o’r 1920au), ond wedyn efallai wedi’i ddylanwadu yn ei ddehongliad gan ganu Burl Ives o America. (Cafwyd tystiolaeth o lygad y ffynnon, sef bod Phyllis wedi cyfaddef i Stephen, ‘O! Merêd loved Burl Ives!’)

Soniodd wedyn amdano ei hun yn y dechrau yn ymbalfalu i ‘ddarganfod’ traddodiad offerynol Cymreig yn niffyg unrhyw draddodiant o’r gorffennol o’r ffidil, yr acordion, neu o’r pibgorn hynafol. Ac fel y gwnâi cerddorion gwerin eraill Cymreig ar y pryd, dechreuodd ddatblygu ei ffordd ei hun o chwarae drwy ddynwared dulliau traddodiadau eraill cyfagos. Clywyd enghreifftiau ganddo o

chwarae’r ffidil, a’r acordeon, ac (yn agoriad llygad i rai mae’n siŵr!) o’r pibgorn.

Dangosodd Stephen mai gwead o wahanol elfennau yw traddodiad, mewn gwirionedd, yn gymysgedd nid yn unig o’r hen a draddodir, ond bod elfennau o’r cyfoes ac o’r hollol newydd yn medru bod yn ddylanwadau pwysig hefyd. A bod y gwaith o draddodi, ddim o reidrwydd yn estyn dros genedlaethau lawer, ond yn gallu digwydd jest rhwng un genhedlaeth a’r nesaf, fel mae o ei hun wedi gweld efo rhai cerddorion ifainc o’r to newydd.
Diolchodd Robin i Stephen ar y diwedd, gan ddweud mor wych yw’r ‘daith’ efo Traddodiad, wrth ddadansoddi a darganfod, wrth ymchwilio, rhannu, dysgu a thraddodi, a (fel mae o a Stephen wedi gwneud dros y blynyddoedd) cydweithio, a gwych o beth, bod y daith yna yn mynd yn ei blaen!



# CYMORTH CRISTNOGOL

## CINIO BARA A CHAWS

Cymhelir Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol ym Methel, Stryd y Popty ddydd Llun, 13 Ebrill rhwng 12.00 a 1.30pm.

Bydd Marie Mcneill, Pennaeth Cymorth Cristnogol yng Nghymru, Rebecca Elliott, sydd wedi'i phenodi i weithio gyda phlant a phobl ifanc, Jennie Weaver a Llinos Roberts, Swyddog Ymgysylltu a chodi arian Cymru yn ymweld i roi cyflwyniad am waith yr Wythnos eleni a fydd yn canolbwyntio ar waith yr elusen yn Kenya.

**CROESO CYNNES I BAWB**

## CLWB SUL

Daeth eglwysi Cymraeg y dref ynghyd i'r Morlan ar Fawrth y cyntaf ar gyfer ein Gwasanaeth Gwyl Dewi. Yn dilyn rhan gyntaf y gwasanaeth ac anerchiad i'r plant a'r ieuenctid gan Eifion, aeth aelodau'r Clwb Sul i'r ystafell werdd drws nesaf i'r neuadd i fwynhau amrywiaeth o grefftau Gwyl Dewi. Bu pawb yn gweithio'n dawel ac yn ddiwyd.

Yr ail Sul yn y mis cyflwynwyd Gwyrthiau Iesu gan ganolbwyntio ar Storiau  Bartimeus, Y Storm ar y Môr a Rhannu'r Pum Torth a Dau Bysgodyn.  Bu'r plant yn mwynhau actio'r storiau a'r gweithgareddau crefft oedd yn dilyn.

Ar Sul y Mamau cyflwynwyd  stori Mair a Martha a oedd yn addas iawn ar gyfer y diwrnod,  Bu pawb yn brysur yn creu cardiau i'w cyflwyno i'w Mamau.

Trefnwyd Llanllanast y Pasg ar ddydd Sul, Mawrth 22ain sef y Sul olaf i'r Clwb Sul gyfarfod cyn gwyliau'r Pasg.  Treuliwyd amser ar y dechrau yn cyflwyno prif ddigwyddiadau'r Wythnos Sanctaidd cyn symud at fwynhau amrywiaeth o grefftau a chreu Cardiau'r Pasg.























# COFIWCH AM

Y Gwasanaeth Pasg i’r Teulu am 10 o’r gloch.
ar fore Sul y Pasg, Ebrill 5ed

a’r HELFA WYAU yng NGHOEDWIG PENGLAIS am 11.15. o’r gloch ar ôl y gwasanaeth




# GWEDDIWN

Diolch am dy Basg

Diolch i ti, O Dduw, am dy fawredd
ac am roi dy harddwch i ni bob amser yn dy gread
sydd wastad yn ei adnewyddu ei hun
ac yn chwilio am ffyrdd o oresgyn anawsterau.
Hyd yn oed ynghanol y gaeaf, y rhew a'r oerni,
diolch nad oes modd caethiwo bywyd
sy'n mynnu tyfu a chyrraedd terfynau newydd.
Diolch nad oes lladd arnat ti, O Dduw,
er ein bod ni yn mynnu dy fygu allan o'n bywyd yn aml.
Diolch am dy Basg, am dy fedd gwag,
am y rhwyd yn llawn o bysgod,
ac am y gobaith na ellir ei ddileu
sy'n tarddu o geisio dilyn Crist yn agosach
ym mhethau cyffredin bywyd.
Diolch am y niwl sy'n codi
oddi ar drydydd dydd ein pryderon,
a'r sicrwydd o'th ofal amdanom
yn troi'r awydd i grio yn ddagrau llawenydd.
Dysg ni i fod mewn gwir gytgord â'n gilydd
fel yr wyt ti â'th gread,
wastad yn darparu i ni eirlysiau o obaith;

ac i ti yn unig y bo’r gogoniant a’r mawl.
Amen

Aled Lewis Evans allan o Amser i Dduw, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)




Mae’n deg dadlau bod “A Love Supreme” gan John Coltrane ymysg y gerddoriaeth bwysicaf i gael ei recordio erioed!

Mae eleni’n ganmlwyddiant geni’r sacsoffonydd oedd yn wreiddiol o Ogledd Carolina ac sydd wedi dylanwadu ar gymaint o gerddoriaeth yr ugeinfed ganrif a thu hwnt.

Dyma gyfle felly i hel meddyliau am y clasur a recordiwyd yn Stwidio Van Gelder, New Jersey ar Ragfyr 9fed,1964 a’i rhyddhau ar label Impulse! yn Ionawr1965.

Wrth wrando ar y gerddoriaeth, mae angen gwneud rhywfaint o waith paratoi cyn ymgolli yn y seiniau a'r rhythmau. Nid dyma’r lle i gynnig bywgraffiad o'r cerddor cyn y recordio ond fel y dywed y nodiadau ganddo ar glawr yr album:

“Yn ystod blwyddyn 1957, bu i mi brofi, trwy ras Duw, ddeffroad ysbrydol a’m harweiniodd tuag at fywyd cyfoethocach, llawnach a mwy cynhyrchiol. Bryd hynny, mewn diolchgarwch, gofynnais yn ostyngedig am y modd a’r fraint o allu gwneud eraill yn hapus drwy gerddoriaeth. Rwy’n teimlo bod hyn wedi’i roi i mi trwy Ei ras. POB MAWL I DDUW.”

Wrth ymbil arnom i fynd ar daith ysbrydol, mae’n cyfeirio at gymal ym Mathew 7:

“... daliwch ati i ofyn a byddwch yn ei gael; chwiliwch a byddwch yn dod o hyd iddo; curwch ar y drws a bydd yn cael ei agor. 8 Mae pawb sy'n gofyn yn derbyn; pawb sy'n chwilio yn cael; ac mae'r drws yn cael ei agor i bawb sy'n curo.” (Beibl.net)

Wedi diolch i’w gyd-gerddorion McCoy Tyner (piano); Jimmy Garrison (Bas) ac Elvin Jones (Drymiau) mae’n datgan gyda gorfoledd: “Peidied anghofio byth mai yng ngoleuni ein bywydau, trwy’r storm ac ar ôl y glaw – gyda Duw y mae popeth – ym mhob ffordd ac am byth.”

Wedi i mi droi at ‘A Love Supreme’ yn diweddar dyma wrando unwaith eto ar yr album gan y pianydd jazz Huw Warren a’r gantores Lleuwen Steffan sy’n dwyn yr enw “Duw a Ŵyr”(2005).

Ymysg y caneuon mae’r emyn Pen Calfaria gan Dyfed gydag amrywiad ar Laudamus sef emyn-dôn Daniel Protheroe sydd i’w chael yn y gyfrol Caneuon Ffydd (496).

Ynddi, mae Dyfed yn ein hannog ‘drwy gawodydd dagrau’ i edrych tua’r groes:

I Galfaria trof fy wyneb,
ar Galfaria gwyn fy myd:
y mae gras ac anfarwoldeb
yn diferu drosto i gyd;
pen Calfaria,
yno, f’enaid, gwna dy nyth.

Fel yr anogodd John Coltrane: ‘chwiliwch a byddwch yn dod o hyd iddo’.

Dilwyn Ellis Roberts.



## Y GYMDEITHAS

**Nos Lun, 13 Ebrill am 7.00 o’r gloch – y Cwis Blynyddol o dan arweiniad Robin Huw Bowen. Croeso cynnes i noson olaf y Gymdeithas am eleni.**

# AGOR Y LLYFR




Bu’r criw Agor y Llyfr yn ymweld â’r Ysgol Gymraeg unwaith y mis i gyflwyno storiau o’r Beibl o’r cynllun cydnabyddedig a llwyddiannus yma gan Gymdeithas y Beiblau.  Mae’r plant yn cynorthwyo’r cyflwyniadau trwy feimio neu actio wrth i ni adrodd y storiau ac maent yn awyddus i gymryd rhan gan edrych ymlaen at weld y bocs gwisgoedd yn cyrraedd. Y bore dydd Mawrth cyn y gwyliau aethom i‘r ysgol i gyflwyno Stori’r Pasg.
Gwerthfawrogwn y croeso a’r gefnogaeth gan yr Ysgol a’r dewis addas o emynau a’r lluniau cefndir sydd yn ychwanegu at gyflwyno’r storiau.

# CYMDEITHAS A GWEDDI

Cyflwynwyd y cynllun Agor y Llyfr a Stori’r Pasg o’r cynllun i aelodau Cymdeithas a Gweddi ar fore dydd Mawrth. Mawrth 24ain gan wahodd unrhywun oedd yn dymuno, i ymuno â’r tîm. Estynnwn yr un

gwahoddiad trwy gyfrwng Perthyn. Byddem yn croesawu mwy o aelodau i’r tîm. Rhowch wybod i Eifion neu i Eleri os ydych yn dymuno ymuno.

## CYMANFA GANU UNEDIG GOGLEDD CEREDIGION, CAPEL BETHEL, ABERYSTWYTH

Dydd Sul, 17 Mai 2026 am 10yb a 5.30yh
Arweinydd: Gregory Vearey-Roberts

### TREFN Y RIHYRSALS

22 Ebrill Bethel, Aberystwyth
29 Ebrill Seion, Aberystwyth
6 Mai Capel y Morfa, Aberystwyth
13 Mai Bethel, Aberystwyth

Bydd y rihyrsals i gyd yn cael eu cynnal ar nos Fercher am 7 o’r gloch.

**GOLYGYDDION Y MIS HWN** – Eifion ac Alwen

**GOLYGYDDION MIS MAI** – Gwerfyl a Menai

Deunydd erbyn 17 MAI

gwerfylpj@googlemail.com

menaillwyd@googlemail.com